

CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR LLAWN, 9fed MEHEFIN 2020 - CYFARFOD RHITHIOL

Yn bresennol: Ei Deilyngdod Y Maer – Cyngorydd W.Tudor Owen
(Cadeirydd)

Y Cynghorwyr W.L.Davies, A.Hopcyn, E.Hughes, D.L.Jones, K.Jones,
C.Larsen, E.Lovgreen, B.Owen, W.R.Owen, J.W.Parry, S.Sage, I.C.Thomas,
R. Thomas, C.Williams

1. Ymddiheuriadau

Y Cynghorwyr K.Richards, M.Sarnacki

2. Cyhoeddiadau'r Maer

(1) Cymymdeimlad

Nododd y Cadeirydd fod y Cyngorydd R.Thomas wedi colli ei fam yn ddiweddar, a cydymdeimlodd gydag ef, ar ran y Cyngor, yn ei brofedigaeth.

(2) Salwch

Nododd y Cadeirydd fod y Cyngorydd K.Richards yn wael ac wedi bod am gyfnod yn yr ysbyty. Dymunodd iddo adferiad llwyr a buan.

Yn ogystal, dymunodd wellhad buan i'r Cyngorydd M.Sarnacki, oedd hefyd wedi cael ei phenblwydd yn ddiweddar.

3. Datgan Buddiant Personol

Eitem 13 – GISDA – Y Cyngorydd W.Tudor Owen

Eitem 13 – GISDA – Y Cyngorydd E.Hughes

4. Eitemau Brys (Cadeirydd / Clerc)

Dim.

5. Cofnodion

I gadarnhau'r cofnodion canlynol:

i. Cyngor Llawn – 12fed o Fai 2020

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir, yn amodol i ychwanegu ar y cofnodion mai Cyfarfod Rhithiol oedd o.

ii. Pwyllgor Gwaith – 26ain o Fai 2020

Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith y disgwylir eglurder gan Gyngor Gwynedd ar faterion fel glanhau, y fflat, y Clwb Criced, peiriannau parcio ac yn y blaen.

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir, yn amodol i ychwanegu ar y cofnodion mai Cyfarfod Rhithiol oedd o.

Mynychodd y Cynghorydd W.L.Davies y cyfarfod am 6.32 p.m.

6. Cyfrifon

Nododd y Clerc ei fod angen cywiro dau beth, sef:

- (1) Y dylai un darn o'r ffigyrau cyflog ar gyfer y daenlen fis Ebrill gael eu diwygio i ddarllen:

Cyflog Wythnosol

J.A.Rowlands

Wythnos	Cyflog Net (£)
1	180.23
2	180.23
3	180.23
4	209.00

- (2) Y dylid tynnu'r canlynol o daenlen fis Mai, gan mai Cyngor Gwynedd ddylai dalu hwn:

Hwb Caernarfon	Cyfraniad Ymddiriedolaeth yr Institiwt 2020/21	£161.25
----------------	--	---------

Penderfynwyd derbyn a'u talu.

7. Cysoni Cyfrifon

- (a) Mawrth 2020
 (b) Diwedd y flwyddyn 2019/20
 (c) Ebrill 2020
 (ch) Mai 2020

Penderfynwyd derbyn er gwybodaeth, ond bod angen cywiro'r teitl yn 7(c) a 7(ch) i ddarllen 2020/21.

8. Archwiliad 2019/20

Cyflwynwyd – gwybodaeth a gohebiaeth am Archwiliad 2019/20.

Nododd y Clerc:

- (1) Bod yr Archwilydd Mewnol wedi codi 2 bwynt yn eu llythyr oedd efo'r cyfrifon, sef bod angen i'r Cadeirydd lofnodi'r cyfrifon yn fisol yn y cyfarfod o'r Cyngor, a bod angen tynhau'r drefn o ran awdurdodi taliadau (hyn ar waith gyda phenodiad y Dirprwy Glerc).
- (2) Bydd y Glerc a'r Dirprwy yn hel y gwaith papur perthnasol at ei gilydd, ac yn anfon popeth ymlaen at yr Archwilydd Allanol.

Penderfynwyd derbyn er gwybodaeth.

9. Cyllid – Cyfrifon “Designated”

Gofynnwyd am ganiatâd y Cyngor i glustnodi Cyfrifon “Designated” ar gyfer y materion penodol.

Penderfynwyd caniatáu'r Cyngor i glustnodi Cyfrifon “Designated” ar gyfer y materion canlynol:

2021/22	£20,000 – Adeilad yr Institiwt
2022/23	£20,000 – Adeilad yr Institiwt
2023/24	£20,000 – Adeilad yr Institiwt

10. Cyfarfod Blynyddol

Cynhaliwyd trafodaeth ar pa bryd y dylid cynnal y Cyfarfod Blynyddol er mwyn cadarnhau penodiad y Maer a'r Dirprwy Faer.

Nododd y Clerc ei fod wedi cysylltu gyda chynghorau eraill ac roedd y darlun yn amrywiol o ran pa bryd roedd y Cyfarfod Blynyddol yn cael ei gynnal.

Penderfynwyd cynnal y Cyfarfod Blynyddol ar y 7fed o Orffennaf. Bydd yn cymryd lle o flaen, ac ar yr un noson â'r, cyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn ar y 7fed o Orffennaf.

11. Cyfarfod cyntaf ar ôl cyfarfod blynyddol

Nodwyd mai'r drefn arferol oedd trafod y canlynol yn y cyfarfod cyntaf yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol (gellir trafod rhai o'r materion yn y cyfarfod hwn, sef (i), (ii) (vi) (Rheolau Sefydlog yn unig), (vii), (ix), (x), (xi)):

- (i) Adolygu trefniadau unrhyw ddirprwyo i bwyllgorau / is-bwyllgorau
- (ii) Adolygu cylch gorchwyl pwyllgorau

Penderfynwyd derbyn y Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau ac Is-bwyllgorau, a pharhau gyda'r trefniadau presennol, sef mai dim ond y Pwyllgor Cynllunio sydd â'r hawl i weithredu.

- (iii) Derbyn enwebiadau ar gyfer pwyllgorau presennol – i'w drafod yn y cyfarfod cyntaf ar ôl y cyfarfod blynyddol.
- (iv) Enwebiadau cyrff allanol – i'w drafod yn y cyfarfod cyntaf ar ôl y cyfarfod blynyddol.
- (v) Penodi unrhyw bwyllgorau newydd – i'w drafod yn y cyfarfod cyntaf ar ôl y cyfarfod blynyddol.
- (vi) Mabwysiadu rheolau sefydlog a rheolau ariannol a'r cod ymddygiad. – angen trafod y Rheolau Sefydlog, ond y gweddill i'w trafod yn y cyfarfod cyntaf ar ôl y cyfarfod blynyddol.

Nododd y Clerc:

- (1) Yn sgil yr argyfwng Covid-19 ni chafwyd cyfarfod o'r Cyngor Llawn, nag unrhyw bwyllgor arall am rai misoedd.
- (2) Y bwriad oedd cynnal cyfarfod arbennig o'r Cyngor Llawn ar nos Lun, 23ain o Fawrth, er mwyn ffurfioli trefniadau yn ystod cyfnod yr argyfwng. Oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch ni fu i'r cyfarfod gymryd lle.
- (3) Y golygai hyn fwch o ran penderfyniadau pwyllgor, ac ar y pryd ymgynghorwyd gydag Uned Gyfreithiol Cyngor Gwynedd, a phenderfynwyd ar y drefn ganlynol, a adroddwyd i'r aelodau:

“- O ran materion gweithredol, bydd y Clerc yn gwneud penderfyniadau a bydd yn adrodd yn ôl i'r pwyllgor perthnasol cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Bydd hyn yn broses lle bydd angen eich cyngor a'ch mewnbwn.

- Lle bydd angen penderfyniad brys byddwn yn ystyried y ffordd orau o gyflawni hynny pan ddaw'r amser.”

- (4) Os nad oedd y Rheolau Sefydlog yn cyfarch neu'n caniatáu hyn yn llawn, yr arweiniad oedd dod â Rheolau Sefydlog diwygiedig, sydd yn cyfarch yr uchod, i gyfarfod o'r Cyngor Llawn cyn gynted ag y bo'n ymarferol wedi i bwyllgorau allu cyfarfod eto.

Nodwyd ymhellach bod y Rheolau Sefydlog fel arfer yn cael eu hadolygu bob blwyddyn yn y cyfarfod ar ôl y Cyfarfod Blynyddol, a bod yr adroddiad yn gofyn am ganiatâd i'w hadolygu yn awr gan fod angen creu mwy o hyblygrwydd pe byddai argyfwng cyffelyb i Covid-19 yn digwydd yn y dyfodol.

Penderfynwyd derbyn a mabwysiadu'r Rheolau Sefydlog gyda'r diwygiad a nodir yn isod:

“3 CYFARFODYDD YN GYFFREDINOL

Cyfarfodydd Cyngor Llawn

- cynhelir yn arferol ar y Nos Fawrth Cyntaf o bob mis (heblaw bod y Cyngor yn cytuno i newidiadau gyda dim llai na dau fis o rybudd). Ni

fydd cyfarfod ym Mis Awst (dim ond mewn argyfwng) (mi fydd gan y Maer, Dirprwy a'r Clerc hawl i weithredu yn ystod Mis Awst , ac ar ôl cyfarfodydd Mis Mai a Rhagfyr. **Yn ogystal bydd gan y Maer, Dirprwy a'r Clerc hawl i weithredu mewn unrhyw gyfnod o argyfwng, lle na fydd cyfarfodydd yn gallu cymryd lle.**

Cyfarfodydd Pwyllgorau

- Cynllunio a'r hawl i weithredu ar y ceisiadau cynllunio i gyd (gan cynnwys cyfnodau heb cyfarfodydd e.e Mis Awst)

Cyfarfodydd Is-bwyllgorau

- rhaglennir am y flwyddyn, gydag argymhellion yn mynd i'r Cyngor Llawn i'w mabwysiadu."

(vii) Mabwysiadu rhestr asedau ac asesiad risg ariannol

Nodwyd:

- (1) Bod y rhestr eiddo yn barod am yr awdit blynyddol.
- (2) Ers i'r Clerc gael ei benodi ym mis Medi nid oedd yn ymwybodol fod eitemau wedi gadael yr adeilad, ond roedd rhai eitemau wedi dod i mewn, felly dim ond mân ddiwygiadau oedd i'r rhestr o restr 2019.
- (3) Erbyn y flwyddyn nesaf bydd sylw fwy manwl wedi cael ei roi i hwn, a bydd angen barn broffesiynol ar werth y gwaith celf, cerfluniau a'r eitemau yn Adeilad yr Institiwt, gan ei bod yn ymddangos nad oedd hyn wedi cael ei wneud yn fanwl ers 2004.

Penderfynwyd derbyn y Rhestr Asedau ac Asesiad Risg Ariannol.

- (viii) Adolygu aelodaeth Cyngor / neu weithwyr o gyrff eraill – i'w drafod yn y cyfarfod cyntaf ar ôl y cyfarfod blynyddol.
- (ix) Adolygu trefniadau cwynion

Penderfynwyd derbyn y Drefn Gwynion.

- (x) Adolygu polisiau

Penderfynwyd:

- (1) **Dod â'r Polisi o ran Cyfryngau Cymdeithasol gerbron y cyfarfod nesaf o'r Cyngor.**
- (2) **Gofyn i'r Clerc a'r Dirprwy Glerc fynd trwy'r polisiau ar y wefan er mwyn eu tacluso, cywiro a'u cysoni, a dod â hwy gerbron cyfarfod o'r Cyngor yn y misoedd nesaf. Wrth wneud hyn dylid gofyn am sylwadau'r Cyngorwyr.**

- (xi) Penodi Archwilydd Mewnol

Penderfynwyd penodi Mr David Chidley fel Archwilydd Mewnol eto o WJ Matthews a'i Fab.

12. Covid-19

Cyflwynwyd adroddiad y Clerc yn rhoi diweddariad am y sefyllfa o ran Covid-19.

Nodwyd:

- (1) O ran y sefyllfa staffio, nad oedd y Gofalwr a'r Swyddog Cynnal a Chadw yn eu gwaith oherwydd cyflyrau meddygol. Roedd y Clerc mewn cysylltiad efo'r ddau, ac am adolygu'r sefyllfa yn fuan.
- (2) Erbyn hyn roedd y Clerc a'r Dirprwy Clerc yn gweithio o Adeilad yr Institiwt am y mwyafrif llethol o'r amser, wedi cyfnod o gyfuno gweithio rhwng Adeilad yr Institiwt ac o'u cartrefi.

Nodwyd o ran y Gronfa Argyfwng:

- (1) Pan ddechreuodd popeth gau i lawr ym mis Mawrth roedd y Clerc wedi creu Canllawiau (wedi eu seilio ar ganllawiau oedd yn cael eu defnyddio gan Gyngor Tref Amwythig) er mwyn dyrannu arian o'r Gronfa Argyfwng i sefydliadau oedd yn gwneud cais am arian i'w cynorthwyo yn ystod yr argyfwng.
- (2) Bod y Cyngor Tref wedi clustnodi £7,000 i helpu grwpiau lleol gefnogi'r gymuned yn ei frwydr yn erbyn y corona firws ac i gefnogi trigolion y dref (hyd at uchafswm o £500 y grŵp). Roedd Llewod Caernarfon wedi cynyddu'r gronfa gyda rhodd o £1,000.
- (3) Bod panel wedi ei greu i ystyried ceisiadau am arian o'r Gronfa oedd yn cynnwys y 4 Cydlynedd Cofis Curo Corona, y Clerc a'r Dirprwy Clerc.
- (4) Roedd yr aelodau wedi cytuno i'r canllawiau roedd y panel yn ei ddefnyddio, ac roedd y Canllawiau yn sicrhau fod gan yr aelodau lais yn y penderfyniadau.
- (5) Bod nifer o sefydliadau wedi derbyn cymorth o'r gronfa.

Penderfynwyd nodi'r uchod.

13. GISDA

Cyflwynwyd llythyr gan GISDA yn gofyn am gefnogaeth ar gyfer gwneud cais loteri i redeg prosiect dwy flynedd yng Ngwynedd i gefnogi pobl ifanc o'r gymuned LHDT+

Penderfynwyd cefnogi'r cais gan GISDA ar gyfer gwneud cais loteri i redeg prosiect dwy flynedd yng Ngwynedd i gefnogi pobl ifanc o'r gymuned LHDT+

Gadawodd y Cyngorydd J.W.Parry y cyfarfod am 7.00 p.m.

14. Meysydd Parcio – Cytundeb Lefel Gwasanaeth

Cyflwynwyd er gwybodaeth y Cytundeb Lefel Gwasanaeth i sylw'r aelodau.

Nodwyd:

- (1) Y cyflwynwyd deiseb, ar ran Siopwyr Caernarfon, gan y Cyngorwyr W.R.Owen a J.W.Parry yn gwrthwynebu i godi'r taliadau am barcio yng Nghaernarfon, i'r Cyngor yn ei gyfarfod ar y 4ydd o Chwefror.
- (2) Bod pryder mawr y byddai codi prisiau parcio o 10% yn y dref yn achosi i rai busnesau bach fynd i'r wal, yn enwedig o gofio eu bod wedi cau am fisoedd oherwydd Covid-19.

Datganodd y Cynghorydd W.R.Owen y byddai'n gwrthwynebu unrhyw ymgais i godi'r costau parcio o 10% oherwydd yr effaith negyddol fyddai yn ei gael ar fusnesau lleol.

Penderfynwyd gadael y gytundeb ar y bwrdd am y tro, oherwydd yr amgylchiadau o ran Covid-19.

15. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Adroddiad Atodol - yr egwyddorion sy'n ymwneud ag ad-dalu costau gofal

Cyflwynwyd gopi o Adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - yr egwyddorion sy'n ymwneud ag ad-dalu costau gofal, ynghyd â llythyr eglurhaol gan y Cadeirydd, Mr John Bader.

Nodwyd fod yr adroddiad hefyd ar wefan IRP yn [Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol](#).

Penderfynwyd nodi'r uchod.

16. Gwasanaeth Ieuencid

Nododd y Clerc ei fod wedi derbyn e-bost gan y Gwasanaeth Ieuencid o ran y trefniadau ar gyfer y clwb ieuencid ar gyfer mis Medi a'r trefniadau staffio ar ei gyfer.

Roedd yr e-bost yn nodi:

- (1) Ar hyn o bryd nid ydym yn gwybod beth fydd y canllawiau ar gyfer mis Medi ymlaen o ran pellhau cymdeithasol a gweithgareddau cymwys o dan reoliadau COVID19.
- (2) Ei bod yn annhebygol y bydd gweithgareddau cymdeithasol i grwpiau o bobl, wyneb yn wyneb fod yn digwydd erbyn hynny.
- (3) Bod y Cyngor Tref yn parhau i dalu am y staff, hyd yn oed os na fyddent yn gweithio, oni bai bod y Cyngor Tref yn hysbysu'r Gwasanaeth Ieuencid i'w diswyddo.
- (4) Bod y Gwasanaeth Ieuencid yn awyddus i ni adael iddynt wybod os rydym yn dymuno parhau gyda cyflogaeth y gweithwyr ai peidio, rhag ofn i'r sefyllfa newid o ran darparu Clwb, neu dod â'r swyddi i ben.
- (5) Nad oes syniad ar y funud o ran pa bryd y bydd Gwasanaeth Ieuencid y Cyngor yn mynd yn ôl wyneb i wyneb gyda pobl ifanc, a'u bod yn edrych i mewn i brosiectau rhyngweithiol ar y we.

Penderfynwyd:

- (1) Cysylltu gyda'r Gwasanaeth Ieuencid i ddatgan nad oedd y Cyngor yn bwriadu newid y trefniadau, ac yn dymuno parhau gyda cyflogaeth y gweithwyr.**
- (2) Gofyn i'r Gwasanaeth Ieuencid am adroddiad o'u gweithgareddau hyd at ddyfodiad Covid-19 – y gweithgareddau, nifer y mynychwyr ac yn y blaen, ac i roi amlinelliad o sut roeddynt am weithredu'r gwasanaeth dros y misoedd nesaf tra bod y cyfyngiadau'n parhau, er enghraifft y prosiectau rhyngweithiol ar y we.**

17. Cynnal Tiroedd

Trafodwyd gofynion y Cyngor Tref, a statws lleoliadau a safleoedd y dref, er mwyn adrodd i Gyngor Gwynedd.

Nododd y Clerc ei fod wedi derbyn e-bost yn datgan bod y gwasanaeth cynnal tiroedd wedi ail-ddechrau ac nid oeddynt yn sicr o ofynion y Cyngor Tref nac o ran statws y lleoliadau a'r safleoedd.

Penderfynwyd rhoi Cynnal Tiroedd ar raglen y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Gwaith.

18. Brysgyllwr

Penderfynwyd caniatáu i'r Clerc roi hysbyseb am Frysgyllwr ar "Facebook".

19. Rhybudd o Gynnig

Cyflwynwyd y Rhybudd o Gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Maria Sarnacki:

“ O ran y Gystadleuaeth Arddio eleni, a allwn ofyn i'm cyd-gynghorwyr gynnig awgrymiadau fel na fyddwn yn canslo?”

Rwyf wedi gweld yn ystod y cyfnod “lockdown” hwn fod pobl wir wedi dod o hyd i bleser mawr ac ymdeimlad o normalrwydd wrth iddynt drin eu gerddi. Mae wedi bod yn therapi gwych, yn enwedig i'r henoed. Mae llawer yn byw ar eu pennau eu hunain ac mae wedi bod yn gymorth mawr iddyn nhw.

A gaf awgrymu ein bod yn cysylltu â Peter Garlick i ofyn a yw'n barod i ymgymryd â'r Rôl unwaith eto eleni, neu efallai bod pob ward yn dewis 2 gynghorydd i fynd o amgylch eu ward yn ystod yr haf a thynnu lluniau. Yna eu cyflwyno i'r clerch, fe allai wedyn anfon ymlaen at Peter i'w beirniadu. Rwy'n deall efallai na allwn gynnal y cyflwyniad ond gallem barhau i ddyfarnu'r gwobrau.”

Nodwyd nad oedd y Cynghorydd Maria Sarnacki yn bresennol oherwydd salwch.

Penderfynwyd:

- (1) Cario ymlaen efo'r Gystadleuaeth Garddio, a gofyn i Peter Garlick os yw'n gallu beirniadu.**
- (2) Cynnal cyfarfod o'r Pwyllgor Adloniant yn yr wythnos yn cychwyn y 15fed o Fehefin i drafod.**

Gadawodd y Cynghorydd W.R.Owen y cyfarfod am 7.30 p.m.

20. Cwestiynau

Apêl Popis / Diwrnod VJ

Nododd y Cynghorydd K.Jones fod y rhain ar "hold" ar y funud, ac y bydd yn diweddarau'r pwyllgor pan fydd ganddo fwy o wybodaeth.

Chwyn

Nodwyd fod rhai lleoedd yn y dref wedi mynd yn flêr oherwydd chwyn, ac y bydd y Cynghorydd C.Larsen yn e-bostio Cyngor Gwynedd er mwyn cael gwybod beth yw'r sefyllfa ac i geisio gael datrysiaid.

Gorffennodd y cyfarfod am 7.35 p.m.

Arwyddwyd

Dyddiad